

Amddiffyn y llinell

“Safwch ar y ffyrdd; edrychwch, ac ymofyn am yr hen lwybrau. Ple bynnag y cewch ffordd dda, rhodiwch ynddi, ac fe gewch le i orffwys.” (adn. 16)

Beth am ddarllen Jeremeia 6:16–21 ac yna myfyrio

Un o'r temtasiynau y mae llawer o Gristnogion yn syrthio iddo yn ein dydd ni yw'r awch yna am 'rywbeth newydd' neu'r 'datguddiad newydd' y maent yn credu sydd am gael ei arddangos iddynt, gan wneud eu bywydau yn fwy defnyddiol, a Christnogaeth yn fwy deniadol i'r rhai sydd yn aros y tu allan i gorlan yr Efengyl. Eto, dro ar ôl tro, galwad yr Ysgrythur yw inni ddychwelyd i'r gwirioneddau hynny oedd yn gysur, yn llawenydd ac yn ddymunol i'r rhai a aeth o'n blaen ni.

Yng ngeiriau'r testun heddiw, defnyddir darlun gwahanol i'r hyn a ystyriwyd ddoe (ailagor ffynhonnau). Ond mae'n gwneud yr un sylw – cyn y medrwn symud ymlaen, mae'n rhaid i ni fynd yn ôl, yn ôl i'r gwirioneddau hynny sydd yn sylfaenol i'n cerddeddiad â Duw. I'r rhai ohonom ni sy'n cael ein tentio i feddwl am ffyrdd newydd yn ein dydd a'n hoes ni, rwyf am ddweud mai her yr Ysbryd Glân yw dwyn ein calonnau i sefyll gyda'r hen flaenoriaethau a gwirioneddau. Fe dynnir y llinell yma yn glir inni yn yr Ysgrythur.

Cychwynnodd Luc y meddyg ei efengyl gyda'r geiriau pwysig hyn: “Yn gymaint â bod llawer wedi ymgymryd ag ysgrifennu hanes y pethau a gyflawnwyd yn ein plith...” (Luc 1:1). Dyma ymadrodd cryf. Pethau a gyflawnwyd neu'r pethau a gredwyd yn ein plith. Dyma'r her sy'n cael ei chyflwyno i'r Eglwys Gristnogol heddiw – i aros gyda'r gwirioneddau hynny sydd wedi eu credu gan y saint sydd wedi mynd o'n blaenau. Ond pan mae gwirionedd Duw, fel y mae wedi ei gynnwys yn y Beibl, yn cael ei anwybyddu, yn cael ei guddio, yn cael ei gamddehongli, neu yn cael ei esbonio mewn ffordd sydd yn dal ei wirionedd yn ôl oddi wrth y saint, mae'r Eglwys yn dioddef. Nid yw Cristnogion yn un oherwydd yr hyn nad ydym yn ei gredu; yr ydym yn un oherwydd yr hyn yr ydym yn ei gredu.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 10:12–13; Jer. 7:21–29

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth a fyn Duw oddi wrthym?
2. Beth ddigwyddodd i'r Israeliaid pan fu iddynt wrthod yr hen ffyrdd?

Gweddi

O Dad trugarog a graslon, mae fy nghalon yn agored i bopeth yr wyt am ei ddysgu i mi. Paid â chaniatáu i mi gyfnwid y gwirionedd am Dduw, nac ychwaith symud oddi wrth y pethau hynny yr ydym wedi eu credu. Yn enw Crist rwy'n gofyn y cyfan. Amen.